

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Drysorlys Cymru: yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 ac rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

13 Chwefror 2025

RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2025 (“y rheoliadau”) yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (“Deddf LDT”).¹ Mae Deddf LDT yn sefydlu ac yn nodi'r fframwaith a'r trefniadau gweithredol ar gyfer treth gwarediadau tirlenwi a ddisodlodd dreth dirlenwi'r DU yng Nghymru pan gafodd ei datganoli ym mis Ebrill 2018.
- 1.2. Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio'r gyfradd safonol a'r gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny yng Nghymru. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2025 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a osodir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 o ganlyniad i'r diwygiad a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.
- 1.3. Yn ddarostyngedig i ewyllys y Senedd, daw'r Rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2025.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol ag adrannau 14, 46, 93 a 94(1) o'r Ddeddf LDT:
 - Mae adran 14 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r gyfradd safonol a'r gyfradd is; ac,
 - Mae adran 46 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.
- 3.2. Mae adran 95 o'r Ddeddf LDT yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau sy'n amrywio cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi gael eu (i) gosod gerbron y Senedd, a (ii) rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Senedd o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eu gwneud, heb gyfrif unrhyw gyfnod pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu pan fo ar doriad am fwy na 4 diwrnod. Gelwir hyn yn weithdrefn gadarnhaol “dros dro” neu'n weithdrefn gadarnhaol “gwnaed”.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Crynodeb

¹ <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted/welsh>

- 4.1 Bydd y Rheoliadau hyn yn codi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi a fydd yn gymwys i warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny yng Nghymru. Bydd gwarediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Ebrill 2025 yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfraddau a bennir gan Reoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Diwygio) a Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

Nodau polisi ac egwyddorion treth

- 4.2 Wrth ddatblygu treth gwarediadau tirlenwi i Gymru, gan gynnwys y Rheoliadau, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso ei phum egwyddor ar gyfer datblygu deddfwriaeth a pholisïau trethi datganoledig er mwyn:
- codi refeniw i gynnal gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
 - helpu i gyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach, gan gynnwys swyddi a thwf economaidd;
 - bod yn syml, yn glir ac yn sefydlog;
 - meithrin cysylltiadau â threthdalwyr a rhanddeiliaid ehangach;
 - cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i greu Cymru fwy cyfartal.
- 4.3 Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan gynnwys y Rheoliadau hyn, yn cyfrannu at amcanion gwyrdd ehangach a'r nodau llesiant cenedlaethol, yn arbennig drwy gamau i hyrwyddo economi carbon isel a datblygu economi fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant Cymru o ran ailgylchu a lleihau effeithiau amgylcheddol prosesau cynhyrchu a defnyddio.
- 4.4 Bydd y refeniw sy'n deillio o LDT yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn uniongyrchol².

Y sefyllfa bresennol

- 4.5 Mae tair cyfradd o'r dreth gwarediadau tirlenwi; cyfradd is ar gyfer deunyddiau a nodir yn y rhestr o ddeunyddiau cymwys (gan fodloni gofynion penodol) a chyfradd safonol ar gyfer pob deunydd arall. Ceir cyfradd ar wahân hefyd ar gyfer gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi sy'n cael ei chymhwyso i'r deunyddiau hynny sydd wedi'u gwaredu'n anghyfreithlon mewn safleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig.
- 4.6 Hyd yn hyn, mae cyfraddau LDT yng Nghymru wedi cyfateb i gyfraddau'r Dreth Dirlenwi (LfT) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r dull hwn wedi adlewyrchu ein safbwynt na ddylai cyfraddau fod yn wahanol oni bai bod amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i hynny ddigwydd. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU wedi pennu cyfraddau LfT yn unol â chwyddiant RPI a ragwelir yn y Gyllideb flwyddyn cyn y dyddiad cychwyn.

² <https://www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru>

- 4.7 Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyfraddau LfT ar gyfer 2025-26³. Cynyddodd Llywodraeth y DU'r cyfraddau yn sylweddol drwy addasu'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i gyfrif am chwyddiant uchel yn y cyfnod 2022 i 2024.
- 4.8 Mae'r Rheoliadau'n cynnig cynnal y dull presennol mewn perthynas â chyfradd safonol LDT, a fydd yn parhau i gyd-fynd â chyfradd safonol LfT.
- 4.9 Mae ein dull ar gyfer pennu'r cyfraddau yng Nghymru wedi lleihau'r risg o dwristiaeth gwastraff (sef symud gwastraff ar draws ffiniau), wedi sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau yng Nghymru, ac wedi galluogi'r dreth gwarediadau tirlenwi i barhau i ategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol.
- 4.10 Yn dilyn casgliad yr adolygiad annibynnol o'r Ddeddf LDT⁴, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is LDT, mae'r Rheoliadau'n cynnig cynnydd i'r gyfradd is sy'n uwch na'r un ar gyfer LfT.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.11 Fel rhan o becyn y gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y bydd cyfraddau LDT ar gyfer 2025-26 yn codi fel a ganlyn:
- Bydd y gyfradd safonol yn codi o **£103.70** y dunnell i **£126.15** y dunnell;
 - Bydd y gyfradd is yn codi o **£3.30** y dunnell i **£6.30** y dunnell; a,
 - Bydd y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi (150% o'r gyfradd safonol) yn codi o **£155.55** y dunnell i **£189.25** y dunnell.
- 4.12 Mae'r dull o bennu cyfraddau treth wedi'i lywio gan yr egwyddorion treth a'r amcan o leihau gwarediadau tirlenwi yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan adran 91 o Ddeddf LDTA 2017. Yn ogystal, mae sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr a'r diwydiant gwastraff ehangach wedi bod yn ffactor allweddol wrth bennu'r cyfraddau hyd yn hyn.
- 4.13 Mae'r penderfyniad i gynnig bod y gyfradd is yn ymwahanu oddi wrth y gyfradd a bennwyd ar gyfer LfT wedi'i wneud yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd y Ddeddf LDT ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Bwriedir i'r gyfradd is arfaethedig gymell lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau ymhellach tra'n cydbwysu'r angen am sefydlogrwydd a sicrwydd i fusnesau, ac yn enwedig y diwydiant gwastraff, yng Nghymru.
- 4.14 Mae'r cynnig i barhau i gadw cyfradd safonol LDT yn gyson â chyfradd LfT yn darparu sefydlogrwydd parhaus ac yn cydnabod bod y gyfradd safonol yn dal yn fesur effeithiol sy'n cyfrannu at leihau gwastraff sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru. Pennir y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi yn uwch na'r gyfradd safonol (yn cyfateb i 150% o'r gyfradd safonol), gan greu ataliad ariannol ychwanegol i bobl sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau amgylcheddol

³ [Landfill Tax: increase in rates - GOV.UK](#)

⁴ [Adolygiad Annibynnol: Deddf Treth Gwarediadau Tir \(Cymru\) 2017 | LLYW. CYMRU](#)

a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon. Mae pennu'r gyfradd yn uwch na'r gyfradd safonol yn ystyried yr effeithiau negyddol cynyddol ar yr amgylchedd yn sgil gwarediadau gwastraff sydd heb eu hawdurdodi. Mae'r gyfradd hefyd yn cydnabod y bydd costau gweinyddol a ysgwyddir gan weithredwyr cyfreithlon yn cael eu hosgoi ac mae'n adlewyrchu costau gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn well.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau mewn perthynas â'r cyfraddau treth. Cafodd y cyfraddau arfaethedig eu cyhoeddi gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg fel rhan o gyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar 10 Rhagfyr 2024. Yn yr un modd â gweinyddiaethau treth eraill, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i gyfraddau treth gan mai penderfyniad i'r Gweinidogion yw hyn o hyd.
- 5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfradd is LDT am gyfnod o 8 wythnos rhwng 19 Gorffennaf 2024 a 15 Medi 2024. Daeth 21 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad hwn oddi wrth ystod o randdeiliaid yn darparu ystod o safbwyntiau ar effeithiolrwydd y gyfradd is.
- 5.3 Gofynnodd yr ymgynghoriad cyhoeddus am ymatebion mewn perthynas â 3 opsiwn ar gyfer addasu cyfradd is LDT yng Nghymru:
 - a. Dileu'r gyfradd is (mewn camau neu drwy un diwygiad)
 - b. Cynyddu'r gyfradd is yn sylweddol
 - c. Newid y deunyddiau y mae'r gyfradd is yn gymwys iddynt.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

Cyfradd safonol

- 6.1 O ran cyfradd safonol LDT, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1a: cynnal cysondeb â'r arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir
 - Opsiwn 1b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd safonol LfT

Opsiwn 1a: cynnal yr arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir

- 6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu'r gyfradd safonol gan ddefnyddio chwyddiant, fel y rhagwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Byddai'n cyflwyno rheoliadau sy'n pennu'r gyfradd safonol yn £105.85, sy'n is na chyfradd safonol LfT ar gyfer 2025-26 (£126.15).
- 6.3 Mae'r opsiwn hwn yn rhoi eglurder i'r diwydiant gwastraff yng Nghymru er y gellid disgwyl i ymwahanu oddi wrth gyfradd safonol LfT gael effeithiau ymddygiadol a refeniw (gweler adran 7) y byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus iddynt.

Opsiwn 1b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd safonol LfT

- 6.4 Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i gynnal cost tirlenwi o'i gymharu ag opsiynau eraill ar gyfer gwaredu gwastraff. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae RPI wedi bod yn uwch na'r cyfraddau a ragwelwyd a gafodd eu defnyddio i bennu LDT. Mae'r cynnydd untro hwn yn sicrhau nad yw cost wirioneddol tirlenwi wedi gostwng.
- 6.5 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n gyson â chyfradd safonol LfT y DU, gyda chyfradd safonol LDT yn cynyddu yn unol â mesur RPI wedi'i addasu gan Lywodraeth y DU.
- 6.6 Byddai'r dull hwn cynnal y dull sefydlog o bennu ardrethi a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gan gydnabod bod cyfradd safonol LDT wedi cyfrannu'n effeithiol at leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff.
- 6.7 Byddai cysoni'r cyfraddau â Lloegr a Gogledd Iwerddon yn golygu hefyd na fyddai'r risg o dwristiaeth gwastraff (sef symud gwastraff ar draws ffiniau), o ran gwastraff cyfradd safonol yn newid, gan alluogi LDT i barhau i gyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i gymell dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Yn ogystal, bydd cynyddu cyfraddau i dal i fyny â RPI ar gyfer 2025-26 yn parhau i gydategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol a'u galluogi i weithio ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn parhau i gymell newid mewn ymddygiadau a helpu i fwrw ymlaen â nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

Cyfradd is

6.8 O ran cyfradd is LDT, mae pedwar opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 2a: cynnal cysondeb â'r arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir
- Opsiwn 2b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd is LfT
- Opsiwn 2c: cynyddu'r gyfradd i 5% (£6.30 y dunnell) o'r gyfradd safonol
- Opsiwn 2d: diddymu'r gyfradd is a chymhwyso'r gyfradd safonol i bob gwastraff

Opsiwn 2a: cynnal cysondeb â'r arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir

6.9 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n pennu'r gyfradd is yn unol ag RPI fel y'i rhagwelir gan OBR. Byddai hyn ar swm is na chyfradd is LfT ar gyfer 2025-26 ac mae'n ymwahaniad oddi wrth y cyfraddau yng ngweddill y DU.

6.10 Mae'r opsiwn hwn yn rhoi eglurder i'r diwydiant gwastraff yng Nghymru. Gellid disgwyl i ymwahaniad oddi wrth gyfradd is LfT gael effeithiau ymddygiadol a refeniw cyfyngedig iawn (gweler adran 7).

Opsiwn 2b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd is LfT

6.11 Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i gynnal cost tirlenwi yn gymharol ag opsiynau eraill ar gyfer gwaredu gwastraff. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae RPI wedi rhagori ar y cyfraddau a ragwelwyd a ddefnyddiwyd i bennu LDT. Mae'r cynnydd untro hwn yn sicrhau nad yw cost wirioneddol tirlenwi wedi gostwng.

6.12 Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rheoliadau sy'n gyson â chyfradd is LfT y DU, gyda chyfradd is LDT yn cynyddu yn unol â mesur RPI wedi'i addasu gan Lywodraeth y DU.

6.13 Byddai'r dull hwn yn cynnal y dull sefydlog o bennu cyfraddau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er hynny, nid yw'n cydnabod yn llawn nad yw cyfradd is LDT wedi cyfrannu'n effeithiol at leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff.

6.14 Byddai cysoni cyfraddau â gweddill y DU hefyd yn golygu na fyddai'r risg o dwristiaeth gwastraff (symud gwastraff ar draws ffiniau) mewn gwastraff graddfa is yn newid.

Opsiwn 2c: cynyddu'r gyfradd i 5% (£6.30 y dunnell) o'r gyfradd safonol

6.15 Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu cynnydd yng nghost tirlenwi deunyddiau cyfradd is o'i gymharu â deunyddiau gwaredu gwastraff eraill. Mae'n adlewyrchu'r ffaith hefyd nad yw'r gyfradd is wedi cyfrannu'n effeithiol at

leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu rhai deunyddiau cyfradd is ac y gallai cynnydd yng nghost tirlenwi gynyddu ei gyfraniad at y nodau hynny.

- 6.16 Yn ogystal, mae'r ymagwedd hon at gyfradd is LDT 2025-26 yn ceisio cydategu mentrau presennol sy'n ymwneud â pholisïau effeithlonrwydd adnoddau a'r economi gylchol a'u galluogi i weithio ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn parhau i gymell newid mewn ymddygiadau a bwrw ymlaen â nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 2d: diddymu'r gyfradd is a chymhwyso'r gyfradd safonol i bob gwastraff

- 6.17 Byddai'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r newid mwyaf helaeth i drethi tirlenwi ers cyflwyno LfT ym 1996.
- 6.18 Byddai diddymu'r gyfradd is yn golygu bod yr holl wastraff sy'n cael ei waredu i safleoedd tirlenwi yn ddarostyngedig i gyfradd safonol LDT. Byddai hyn yn cael effeithiau sylweddol ar wastraff â chyfradd is ar hyn o bryd yn mynd i safleoedd tirlenwi (gweler adran 7).
- 6.19 Byddai'r effeithiau'n cynnwys newid sylweddol mewn twristiaeth gwastraff a throsteddu gwastraff, yn ogystal â'r effaith arfaethedig o wthio rhywfaint o wastraff i fyny'r hierarchaeth wastraff.

7. Costau a buddion

- 7.1 Mae'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd, gan gynnwys tystiolaeth o'r ymgynghoriad ar y gyfradd is⁵.
- 7.2 Mae cryn ansicrwydd ynghylch y costau a'r buddion, yn enwedig ar gyfer opsiynau lle nad yw'r cyfraddau'n cyd-fynd â gweddill y DU. Y rheswm dros hyn yw na fu ymwahanu o ran cyfraddau hyd yn hyn, felly nid oes fawr ddim tystiolaeth i werthuso'r opsiynau hyn arni.
- 7.3 Mae'r costiau sy'n ymwneud â LDT yn seiliedig ar y costiau polisi sy'n cael eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft a'u hardystio gan OBR⁶.

Cyfradd Safonol

Opsiwn 1a: cynnal yr arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir

- 7.4 Yr opsiwn hwn fyddai'r polisi safonol o ran cynyddu cyfraddau ac felly byddai'r costau a'r buddion i gynhyrchwyr gwastraff yng Nghymru yn cyd-fynd â'r blynyddoedd blaenorol.
- 7.5 Er hynny, gan fod y cyfraddau yng ngweddill y DU yn cynyddu 22% byddai ymwahaniad o ran cyfraddau o'i gymharu â gweddill y DU. Mae hyn yn

⁵ [Cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | LLYW.CYMRU](#)

⁶ [Rhagolwg Trethi Cymreig – Rhagfyr 2024 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#)

golygu y byddai'n rhatach yn gymharol i dirlenwi gwastraff cyfradd safonol yng Nghymru (arbediad o £20.30 y dunnell mewn treth o'i gymharu â'r cyfraddau yng ngweddill y DU).

7.6 Canlyniad tebygol fyddai cynnydd mewn gwastraff sy'n teithio dros y ffin er mwyn elwa ar y cyfraddau is. Dadansoddwyd effaith hyn drwy gyfrifo'r gostyngiad mewn tunelli yn Lloegr ac amcangyfrif y gyfran sy'n debygol o groesi'r ffin i Gymru. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at 13,000 tonnall o wastraff ychwanegol mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn debygol o arwain at y costau a'r buddion canlynol:

- Refeniw ychwanegol i weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru. O gofio'r tunelli ychwanegol amcangyfrifedig, a ffi glwyd gyfartalog y DU (£24⁷ y dunnell) gallai hyn fod tua £0.3m i gyd.
- Costau amgylcheddol o ganlyniad i gludo'r gwastraff a'r gwastraff ychwanegol sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru. Nid oes modd meintoli hyn.
- Rhagwelir y bydd cyfanswm y dreth cyfradd safonol o dan yr opsiwn hwn yn £28.9m yn 2025-26. Mae hyn yn cynnwys refeniw treth ychwanegol o £1.3m o ganlyniad i wastraff sy'n teithio dros y ffin.

7.7 Yn ogystal, gan na fyddai'r cyfraddau treth wedi symud gam wrth gam â chwyddiant, byddai cost tirlenwi o'i gymharu ag opsiynau gwaredu gwastraff neu aildddefnyddio eraill wedi lleihau. Gall hyn arwain at fanteision amgylcheddol is a refeniw is i fusnesau sy'n cynnig triniaeth amgen ar gyfer gwastraff.

Opsiwn 1b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd safonol LfT

7.8 Byddai'r opsiwn hwn yn cynyddu costau i gynhyrchwyr gwastraff wrth i gyfraddau gael eu hailgysoni â chwyddiant. Gan y byddai cyfraddau'n cyfateb i'r rhai yng ngweddill y DU, ni ragwelir ymateb o ran gwastraff sy'n croesi'r ffin.

7.9 Mae'r cynnydd mewn cyfraddau yn debygol o arwain at y canlynol:

- Gostyngiad bach mewn refeniw i weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Er hynny, gan fod gwastraff yn gymharol anelastig o ran prisiau dros y tymor byr, mae'n annhebygol y bydd newid sylweddol.
- Manteision amgylcheddol bach gan fod rhywfaint o wastraff yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o safleoedd tirlenwi i ddulliau triniaeth amgen.
- Risg ychwanegol o dipio anghyfreithlon a gwarediadau heb eu hawdurdodi er mwyn osgoi'r dreth uwch. Byddai hyn yn arwain at gostau clirio ychwanegol i'r awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Refeniw trethi ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru a amcangyfrifir yn £0.8m yn 2025-26, cyfanswm o £29.8m o refeniw o wastraff cyfradd safonol (o'i gymharu â chynyddu yn unol â RPI, mân

⁷ [UK Gate Fees report 2023-24 | WRAP](#)

wahaniaeth oherwydd talgrynnu). Byddai hyn yn drosglwyddiad o gynhyrchwyr gwastraff yng Nghymru a Lloegr i Lywodraeth Cymru.

Cyfradd is

Opsiwn 2a: cynnal cysondeb â'r arfer presennol o godi'r gyfradd yn ôl RPI a ragwelir

- 7.10 Fel gydag opsiwn 1a, byddai'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â'r blynyddoedd blaenorol ac felly byddai'r costau a buddion i gynhyrchwyr gwastraff yng Nghymru yn debyg i'r rhai a welwyd yn y gorffennol.
- 7.11 Er hynny, gan fod y cyfraddau yng ngweddill y DU yn cynyddu 22% byddai ymwahaniad o ran cyfraddau, er y byddai hynny ar raddfa lai nag ar gyfer y gyfradd safonol. Byddai cyfraddau yng Nghymru £0.70 yn rhatach y dunnell nag yng ngweddill y DU. Gallai hyn arwain at gynnydd bach yn y gwastraff yn agos at y ffin sy'n cael ei dirlenwi yng Nghymru.
- 7.12 Mae gwastraff cyfradd is yn fwy anelastig o ran prisiau na gwastraff cyfradd safonol. Mae hyn, ynghyd â'r gwahaniaeth bach mewn cyfraddau'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd newid sylweddol mewn costau neu fuddion o dan yr opsiwn hwn.

Opsiwn 2b: cynyddu cyfraddau 22% gan fod yn gyson â chyfradd safonol LfT

- 7.13 Fel gydag opsiwn 1b, ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw ymwahaniad o ran cyfraddau i weddill y DU. Gan fod yr opsiwn hwn yn adfer gwerth gwirioneddol y dreth, a chan fod gwastraff cyfradd is yn anelastig iawn o ran prisiau mae'n annhebygol y bydd newid sylweddol mewn costau neu fuddion.
- 7.14 Mae'r effaith wedi'i modelu ar refeniw LDT yn 2025-26 yn gynnydd o £0.3m (o'i gymharu ag opsiwn 2a) o dan yr opsiwn hwn. Byddai hyn yn golygu trosglwyddiad o gynhyrchwyr gwastraff i Lywodraeth Cymru.

Opsiwn 2c: cynyddu'r gyfradd i 5% (£6.30 y dunnell) o'r gyfradd safonol

- 7.15 Byddai cynnydd i £6.30 y dunnell yn gynnydd sylweddol (88%) yn y gyfradd is. Er nad yw gwastraff cyfradd is yn arbennig o ymatebol i newidiadau mewn pris, rhagwelir y bydd gan newid o'r maint hwn oblygiadau ymddygiadol.
- 7.16 Byddai'r polisi hwn yn cael ei gyplysu â neges gyfathrebu mai'r nod yw cymell opsiynau amgen ar gyfer trin gwastraff ac os na chyflawnir gostyngiad cyfatebol mewn gwastraff cyfradd is, yna gallai'r gyfradd is gynyddu i werth uwch yn y blynyddoedd i ddod.

7.17 Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad⁸ yn awgrymu bod fod dewisiadau amgen hyfyw ar hyn o bryd ar gyfer rhai mathau o wastraff cyfradd is, ond yn achos mathau eraill nid yw hyn yn wir. Mae hyn yn golygu y byddai ymateb i'r newid yn effeithio ar rai mathau o wastraff yn fwy na'i gilydd.

7.18 Rhagwelir y bydd effaith y cynnydd hwn fel a ganlyn:

- Gostyngiad amcangyfrifedig o 110,000 tonnall mewn gwastraff wedi'i dirlenwi. Bydd rhywfaint o'r gwastraff hwn yn croesi'r ffin i Loegr, tra bydd rhywfaint yn symud i fyny'r hierarchaeth wastraff ac yn cael ei waredu mewn modd arall/yn cael ei aildddefnyddio. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o wastraff yn cael ei waredu'n anghyfreithlon hefyd trwy dipio anghyfreithlon.
- Cynnydd mewn refeniw LDT yn 2025-26 o £1m gan y disgwylir i'r refeniw ychwanegol o'r gyfradd dreth uwch fwy na gwrthbwysio effaith y gostyngiad mewn gwastraff sy'n cael ei dirlenwi. Mae'r cynnydd mewn refeniw yn golygu trosglwyddiad o gynhyrchwyr gwastraff i Lywodraeth Cymru. Efallai y bydd cynnydd bach hefyd yn Nhreth Dirlenwi'r DU o ganlyniad i wastraff sy'n symud i safleoedd tirlenwi yn Lloegr.
- Gostyngiad mewn refeniw ar gyfer safleoedd tirlenwi Cymru o ganlyniad i lefelau is o warediadau.
- Cynnydd yn y defnydd o systemau gwaredu/aildddefnyddio gwastraff amgen a buddsoddi ynddynt, gan arwain at ostyngiad mewn costau amgylcheddol.

Opsiwn 2d: diddymu'r gyfradd is a chymhwyso'r gyfradd safonol i bob gwastraff

7.19 Byddai'r opsiwn hwn yn dileu'r gyfradd is mewn un diwygiad a byddai'n debygol o fod â chost sylweddol i rai busnesau. Byddai newid o'r maint hwn yn ddigynsail felly mae cryn ansicrwydd ynghylch yr effaith ar bob maes.

7.20 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad⁹ yn awgrymu'r costau canlynol nad oes modd eu meintoli:

- Gostyngiad yn refeniw safleoedd tirlenwi a chostau cynyddol i gynhyrchwyr gwastraff (megis cwmnïau adeiladu). Gall hyn effeithio ar hyfywedd economaidd busnesau yn y sector ac felly effeithio hefyd ar gyflogaeth ar raddfa fach.
- Yn ogystal, efallai y bydd costau cynyddol i gwmnïau datblygu oherwydd oedi wrth ddatblygu safleoedd tir llwyd, costau ychwanegol i safleoedd tirlenwi oherwydd cynnydd yng nghostau deunydd gorchuddio.

7.21 Gallai dileu'r gyfradd is leihau'r angen am agregau crai, felly gallai arwain at refeniw is ar gyfer y sector hwn a throsglwyddiadau is i'r llywodraeth mewn ardoll agregau.

⁸ [Cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: crynodeb o'r ymatebion \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

⁹ [Cyfradd is y Dreth Gwarediadau Tirlenwi: crynodeb o'r ymatebion \[HTML\] | LLYW. CYMRU](#)

- 7.22 Er hynny, mae'r opsiwn hwn yn debygol o hybu datblygiad yn y sector triniaethau amgen gan y byddai'r sicrwydd y mae'n ei roi yn hwyluso buddsoddiad hyderus. Nid oes modd meintoli'r costau a'r buddion i'r sector hwn.
- 7.23 Mae'n debygol hefyd y bydd twristiaeth gwastraff sylweddol, yn enwedig yn y tymor byr. Byddai'r gwahaniaeth mewn cyfraddau rhwng Cymru a gweddill y DU yn sylweddol a byddai'n golygu y byddai cost cludo gwastraff yn is na'r gwahaniaeth mewn cyfraddau ar gyfer llawer o safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Byddai hyn yn arwain at reffeniw is ar gyfer safleoedd tirlenwi yng Nghymru ond reffeniw uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r effaith ar reffeniw treth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru yn debygol o fod yn gadarnhaol yn y tymor byr, ond oherwydd maint mawr y newid i'r dreth mae cryn ansicrwydd ynghylch hyn.
- 7.24 Mae'n anodd amcangyfrif yr effaith net ar yr amgylchedd. Yn y tymor byr mae'r effaith yn debygol o fod yn negyddol gyda chostau cynyddol o ganlyniad i wastraff yn teithio ymhellach i elwa ar gyfraddau is yn Lloegr a chynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Er hynny, yn y tymor hwy, mae'r buddion amgylcheddol yn debygol o orbwyso'r costau wrth i driniaeth/defnyddiau gwastraff amgen ddatblygu ac wrth i wastraff cyfradd is ddisodli cyfran gynyddol o agregau crai.

8. Crynodeb o'r opsiwn a ffeirir

- 8.1 Yr opsiwn a ffeirir fyddai Opsiwn 1b ar gyfer y gyfradd safonol, ac Opsiwn 2c ar gyfer y gyfradd is.
- 8.2 Mae codi'r gyfradd safonol i £126.15 yn adfer gwerth gwirioneddol y dreth ac yn sicrhau bod y gyfradd safonol yn ddatgymhelliad i dirlenwi. Mae hefyd yn cyd-fynd â gweddill y DU ac yn sicrhau cyn lleied â phosibl o dwristiaeth gwastraff. Mae'r opsiwn hwn yn darparu reffeniw treth ychwanegol i Lywodraeth Cymru a ddaw i £0.8m yn 2025-26 yn ôl yr amcangyfrif o'i gymharu â chynyddu'r gyfradd yn unol â chwyddiant a ragwelir.
- 8.3 Mae codi'r gyfradd is i £6.30 yn gynydd sylweddol, ac er gwaethaf y ffaith bod y gyfradd is yn gymharol anelastig o ran prisiau, mae'n debygol o leihau faint o wastraff cyfradd is sy'n cael ei dirlenwi. Mae'r opsiwn hwn yn cynyddu £1m ar reffeniw yn 2025-26 gan y disgwylir i'r reffeniw ychwanegol o'r gyfradd dreth uwch wneud mwy na gwrthbwyso effaith y gostyngiad mewn gwastraff sy'n cael ei dirlenwi.

- 8.4 Rhagwelir y bydd effaith y ddau newid cyfradd yn lleihau faint o wastraff sy'n cael ei dirlenwi, ond yn cynyddu £1.8m ar refeniw yn 2025-26 o'i gymharu â chynyddu'r ddwy gyfradd yn unol â chwyddiant a ragwelir.

9. Asesu'r Gystadleuaeth

- 9.1 Gweler Atodiad A.

- 9.2 Ar hyn o bryd, mae 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi¹⁰ yn gweithredu 20 safle yn y farchnad.

- 9.3 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael effaith andwyol sylweddol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru, na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru, gan y bydd codiad canran mewn cyfraddau yn gymwys i bob gweithredwr.

- 9.4 Bydd y gwahaniaeth rhwng cyfradd is LDT a threthi tirlenwi eraill yn y DU yn arwain at ostyngiad cymharol mewn refeniw ar gyfer safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn ganlyniad bwriadol i'r penderfyniad i gynyddu'r gyfradd is i gyfrannu'n well at nodau amgylcheddol Llywodraeth Cymru.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

- 10.1 Bydd effaith Deddf LDTA 2017 a'r Rheoliadau yn cael eu hasesu ar sail y data a gesglir drwy ffurflenni treth LDT. Bydd y rhain yn rhoi sylfaen dystiolaeth y gellir gwerthuso nifer o bolisiâu Llywodraeth Cymru arni. Bydd y data'n cynnwys gwybodaeth ynghylch refeniw'r dreth gwarediadau tirlenwi a'r sylfaen dreth yn uniongyrchol, er enghraifft sawl tunnell o ddeunyddiau cyfradd safonol a deunyddiau cyfradd is sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi yng Nghymru a'r swm o dreth a godir ar y gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi.

¹⁰<https://www.llyw.cymru/gwiriwch-y-rhestr-o-weithredwyr-safleoedd-tirlenwi-cofrestredig-yng-nghymru>

ATODIAD A

Asesiad o'r Gystadleuaeth

Mae dau gam i'r Asesiad o'r Gystadleuaeth. Mae'r cam cyntaf yn hidlydd sydyn sy'n asesu a oes risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau prawf hidlo'r gystadleuaeth:

Prawf hidlo'r gystadleuaeth ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi	
Cwestiwn	Atebwch yn gadarnhaol neu'n negyddol
C1: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan unrhyw fusnes gyfran o fwy nag 10% o'r farchnad?	Oes
C2: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan unrhyw fusnes gyfran o fwy nag 20% o'r farchnad?	Oes
C3: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni(arnynt) a oes gan y tri busnes mwyaf ar y cyd gyfran o 50% o leiaf o'r farchnad?	Oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag ar eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai